
# MYSTERIOUS AFAN CUDD
# IEUAN GETHIN YM MHLAS BAGLAN

Roedd Ieuan Gethin yn aelod o deulu Tywysogion Afan, ac yn byw ym Mhlas Baglan ar Fynydd Dinas, y bryn uwchben y dref, yn ystod y 1400au. Mae'n ymddangos, o'r cychwyn, bod Ieuan wedi cael y cyfle i fwynhau barddoniaeth ac ysgrifennu.

Ei fam, Elen oedd yn perthyn i Dywysogion Afan, teulu yr ystyriwyd yn fonheddwyr Cymreig, ac roedd hi'n byw yn y cartref teuluol, Neuadd Pergwm yng Nglyn-nedd.



Plas Baglan Heddiw. Ffoto gan Paul R Davis.



Plas Baglan fel yr oedd yn edrych pan roedd Ieuan Gethin yn byw yno yn y 1400au.
Darlun gan Paul R Davis (o *Towers of Defiance* Y Lolfa 2021).

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd un o dylwyth Ieuan, Rhys ap Siencyn, yn hoff iawn o hen farddoniaeth ac roedd ganddo lyfrau barddoniaeth y dyddio o'r oes o'r blaen, gan feirdd a elwir y Gogynfeirdd, Beirdd y Tywysogion.

Felly, mae'n debyg bod Ieuan yn hoff o farddoniaeth, ac wedi ysgrifennu barddoniaeth ei hun.

Credwn i Ieuan briodi Elizabeth, wyres Ifor Hael, a oedd yn noddwr neu, fel arall y person a oedd yn talu Dafydd ap Gwilym.

Erbyn heddiw, mae Dafydd yn cael ei gydnabod fel bardd mwyaf pwysig Ewrop yr oesoedd canol. Roedd beirdd o Ogledd a De Cymru yn dod i ganu eu cerddi yn ei lys ym Mhlas Baglan, ac mae'n bosibl bod rhain yn cynnwys Dafydd.

Mae deg o gerddi Ieuan yn weddill i ni erbyn heddiw ac, er bod yr iaith yn eithaf anodd i'w ddeall heddiw, maen nhw'n ddiddorol dros ben.



Bardd yn canu ac yn chwarae'r crwth, hen fath o feiolin.
Encyclopaedia Britannica (11th ed., vol. 7) (New York, NY: The Encyclopaedia Britannica Company, 1910)

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Ysgrifennodd Ieuan gerdd ddigri i gwyno bod cefnder, neu rhywun yn Aberpergwm, wedi anfon tri dyn i ddwyn nythod ei wenyn gwyllt o'r coed o gwmpas ei gartref, Plas Baglan. Yn y dyddiau hynny, roedd mêl yn fwyd gwerthfawr.

Y ffaith ddiddorol ynghlyn â hyn yw bod, 600 mlynedd yn ddiweddarach, dal nythod gwenyn gwyllt yn y coed o gwmpas Plas Baglan.

O gofio'r epidemig Covid diweddar, mae dau o'i gerddi yn arbennig o drist: roedd dau o'i blant wedi marw o'r pla, ac ysgrifennodd gerddi a elwir galarnadau i nodi eu marwolaethau.

Roedd un yn fab iddo, y mae'n ymddangos ei fod yn gerddor, er yn ifanc iawn. Merch iddo oedd y llall.

" …a phrifardd
A gwr hy â geiriau hardd"


Ieuan Du 1460–1480





Bydafau gwenyn gwyllt mewn coed wrth ymyl Plas Baglan heddiw.
Ffotograffau gan Paula Denby

# MYSTERIOUS AFAN CUDD




Carchar Newgate, cyn iddo gael ei ddinistrio gan y Tân Mawr.
https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Old_Newgate.jpg

Roedd Ieuan hefyd wedi ysgrifennu cerdd yn gofyn i frenin Lloegr rhyddhau Owain Tudur o garchar Newgate, lle yr oedd wedi'i garcharu. Roedd hyn oherwydd bod Owain, yn gyfrinachol, wedi priodi Catherine o Valois, gweddw Harri'r V. Roedd hi wedi cael tri o blant gydag Owain, ac roedd Harri'r VI, brenin Lloegr ar y pryd, ddim am i unrhyw un gael plant a fyddai efallai'n tyfu lan i hawlio ei orsedd oddiwrtho.

Nid yw pethau bob amser yn gweithio yn ôl y cynllun; roedd Edmwnd, eu mab hynaf wedi priodi Margaret Beaufort, a oedd yn meddu ar hawliad cryf i goron Lloegr, a chafodd Harri, eu mab, ei goroni'n frenin ar Loegr, sef y brenin Harri'r VII (Harri Tudur).

Derbyniodd Owain ac Elizabeth ill dau bardwn am gefnogi Owain Glyndŵr, a oedd, am flynyddoedd, wedi ceisio uno Cymru ac adennill y wlad oddiar brenin Lloegr.

Felly, aelod diddorol arall a'i deulu a oedd yn perthyn i Dywysogion Afan, ac yn byw o fewn llathenni o draffordd yr M4 a Chanolfan Siopa Aberafan!

Testun wedi'i addasu o:
https://www.jstor.org/stable/24640151
Tywysogion Afan gan Tim Rees: www.calonafan.org